OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1545 (Cy.143)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru ac yn rhoi pwerau disgresiynol i awdurdodau lleol (gan gynnwys pwerau i osod cyfyngiadau a gofynion) at ddibenion atal heintiad neu halogiad, sy'n cyflwyno neu a allai gyflwyno niwed o bwys i iechyd dynol, rhag brigo neu ymledu, neu at ddibenion diogelu rhag brigiad neu ymlediad heintiad neu halogiad o'r fath, ei reoli neu ddarparu ymateb iechyd cyhoeddus iddo. Mae'r Rheoliadau yn gosod rhwymedigaeth hefyd ar drydydd partïon i gydweithredu o dan amgylchiad penodol.

Mae rheoliad 2 yn galluogi awdurdod lleol i'w gwneud yn ofynnol i blentyn gael ei gadw i ffwrdd o'r ysgol.

Mae rheoliad 3 yn galluogi'r awdurdod lleol i'w gwneud yn ofynnol i bennaeth roi iddo enwau a manylion cyswllt y disgyblion yn ysgol y pennaeth hwnnw.

Mae rheoliadau 4 i 7 yn galluogi awdurdod lleol i ddiheintio neu ddadhalogi pethau neu fangre ar gais y perchennog neu'r person sydd â gofal neu reolaeth mewn perthynas â phethau neu ar gais y tenant mewn perthynas â mangre.

Mae rheoliad 8 yn galluogi'r awdurdod lleol i wneud ceisiadau i unigolion neu grwpiau i wneud, neu beidio â gwneud, pethau penodedig at ddibenion diogelu iechyd ac i gynnig iawndal neu dreuliau mewn perthynas â chais.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 1545 (W.143)

PUBLIC HEALTH, WALES

The Health Protection (Local Authority Powers) (Wales) Regulations 2010

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations apply in Wales and confer discretionary powers on local authorities (including powers to impose restrictions and requirements) for the purposes of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination which presents or could present significant harm to human health. The Regulations also place an obligation on third parties to co-operate in a particular circumstance.

Regulation 2 enables a local authority to require that a child is kept away from school.

Regulation 3 enables the local authority to require that a headteacher provide it with the names and contact details of the pupils at that headteacher's school.

Regulations 4 to 7 enable a local authority to disinfect or decontaminate things or premises on request from the owner or the person with charge or control in relation to things or the tenant in relation to premises.

Regulation 8 enables the local authority to make requests of individuals or groups to do, or not to do, specified things for health protection purposes and to offer compensation or expenses in relation to a request.

Mae rheoliadau 9 i 10 yn galluogi awdurdod lleol i gyfyngu ar ddod i gysylltiad â chorff marw ac ar gael mynd ato.

Mae rheoliad 11 yn galluogi awdurdod lleol i gymryd camau i symud corff marw i fan arall; ac yn gorfodi person sydd â gofal neu reolaeth dros fangre lle y mae corff marw i gydweithredu.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi ynghylch costau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulations 9 to 10 enable a local authority to restrict contact with, and access to, a dead body.

Regulation 11 enables a local authority to take action to relocate a dead body; and obliges a person having charge or control of premises in which the dead body is located to co-operate.

A regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1545 (Cy.143)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010

Gwnaed	*8 Mehefin 2010*
Yn dod i rym	*26 Gorffennaf 2010*

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 45C(1), (2), (3)(b) ac (c), (4)(a) ac (c), 45D(2), 45F(2)(a), (b), (f) ac (g) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddo yn unol ag adran 45Q(2), (3) a (4) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 26 Gorffennaf 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Gofyniad i gadw plentyn i ffwrdd o'r ysgol

2.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni mewn perthynas â phlentyn (C)–

(a) bod C, neu y gall fod C, wedi ei heintio neu wedi ei halogi(**2**);

(b) bod yr heintiad neu'r halogiad yn un sy'n

(**1**) 1984 p.22. *Gweler* adran 45T(6) o'r Ddeddf honno i gael y diffiniad o "the appropriate Minister". Mewnosodwyd adrannau 45C, 45D, 45F, 45P a 45T yn y Ddeddf honno gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p.14) ("Deddf 2008").

(**2**) *Gweler* adran 45A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ("Deddf 1984") i gael y dehongliad o "infection" a "contamination" ac ymadroddion cysylltiedig.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 1545 (W.143)

PUBLIC HEALTH, WALES

The Health Protection (Local Authority Powers) (Wales) Regulations 2010

Made	*8 June 2010*
Coming into force	*26 July 2010*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1), (2), (3)(b) and (c), (4)(a) and (c), 45D(2), 45F(2)(a), (b), (f) and (g) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(**1**).

A draft of this instrument has been laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales pursuant to section 45Q(2), (3) and (4) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984.

Title, commencement and application

1.–(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Local Authority Powers) (Wales) Regulations 2010 and they come into force on 26 July 2010.

(2) These regulations apply in relation to Wales.

Requirement to keep a child away from school

2.–(1) This regulation applies where a local authority is satisfied in relation to a child (C) that–

(a) C is or may be infected or contaminated(**2**);

(b) the infection or contamination is one which

(**1**) 1984 c.22. *See* section 45T(6) of that Act for the definition of "the appropriate Minister". Sections 45C, 45D, 45F, 45P, and 45T were inserted into that Act by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c.14) ("the 2008 Act").

(**2**) *See* section 45A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c.22) ("the 1984 Act") for the interpretation of "infection" and "contamination" and related expressions.

cyflwyno neu a allai gyflwyno niwed o bwys i iechyd dynol;

(c) bod risg y gallai C heintio neu halogi eraill;

(ch) ei bod yn angenrheidiol cadw C i ffwrdd o'r ysgol er mwyn dileu neu leihau'r risg honno; a

(d) bod cadw C i ffwrdd o'r ysgol yn ymateb cymesur i'r risg y mae C yn ei chyflwyno i eraill.

(2) Caiff yr awdurdod lleol, drwy gyflwyno hysbysiad(**1**) i riant C (PT), ei gwneud yn ofynnol i PT gadw C i ffwrdd o'r ysgol.

(3) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth ganlynol–

(a) o ba ddyddiad y mae'r gofyniad yn dechrau;

(b) hyd y gofyniad (hyd at uchafswm o 28 o ddiwrnodau);

(c) pam y credir bod y gofyniad yn fesur angenrheidiol a chymesur;

(ch) y gosb am fethu â chydymffurfio â'r hysbysiad; a

(d) y manylion cyswllt am swyddog awdurdod lleol sy'n gallu trafod yr hysbysiad.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyflwyno hysbysiad o dan baragraff (2), hysbysu pennaeth ysgol C–

(a) ei fod wedi cyflwyno hysbysiad o'r fath mewn perthynas ag C; a

(b) o gynnwys yr hysbysiad hwnnw.

(5) Caiff PT ofyn i'r awdurdod lleol adolygu'r hysbysiad ar unrhyw bryd cyn i'r gofyniad fynd yn ddirym.

(6) O ran yr awdurdod lleol–

(a) rhaid iddo adolygu'r hysbysiad o fewn 5 niwrnod gwaith gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y cais pan fo PT yn gofyn am adolygiad ynglŷn â'r hysbysiad hwnnw am y tro cyntaf; neu

(b) caiff adolygu'r hysbysiad yn achos pob cais arall.

(7) Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu PT a phennaeth ysgol C o ganlyniad unrhyw adolygiad y mae'n ei gynnal cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau.

(8) Caiff awdurdod lleol amrywio neu ddirymu hysbysiad.

(**1**) *Gweler* adrannau 58 a 60 o Ddeddf 1984 i gael y ffurf ar hysbysiad a'r dulliau y ceir eu defnyddio i'w gyflwyno; diwygiwyd adrannau 58 a 60 gan Ddeddf 2008, Atodlen 11, paragraffau 13 a 15 yn eu tro.

presents or could present significant harm to human health;

(c) there is a risk that C might infect or contaminate others;

(d) it is necessary to keep C away from school in order to remove or reduce that risk; and

(e) keeping C away from school is a proportionate response to the risk to others presented by C.

(2) The local authority may by serving notice(**1**) on C's parent (PT) require that PT keep C away from school.

(3) The notice must include the following information–

(a) the date from which the requirement commences;

(b) the duration of the requirement (up to a maximum of 28 days);

(c) why the requirement is believed to be a necessary and proportionate measure;

(d) the penalty for failing to comply with the notice; and

(e) contact details for an officer of the local authority who is able to discuss the notice.

(4) The local authority must as soon as reasonably practicable after serving notice under paragraph (2) inform the headteacher of C's school–

(a) that it has served such a notice in relation to C; and

(b) of the contents of that notice.

(5) PT may request that the local authority review the notice at any time before the requirement lapses.

(6) The local authority–

(a) must review the notice within 5 working days beginning with the day on which the request is made where PT is requesting a review in respect of that notice for the first time; or

(b) may review the notice in the case of all other requests.

(7) The local authority must inform PT and the headteacher of C's school of the outcome of any review it conducts as soon as reasonably practicable after the review is concluded.

(8) A local authority may vary or revoke a notice.

(**1**) *See* sections 58 and 60 of the 1984 Act for the form of a notice and the methods by which it can be served; sections 58 and 60 were amended by the 2008 Act, Schedule 11, paragraphs 13 and 15 respectively.

(9) Rhaid i awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl amrywio neu ddirymu hysbysiad o dan baragraff (8) hysbysu PT a phennaeth ysgol C o'r ffaith bod yr hysbysiad wedi ei amrywio neu ei ddirymu ac, os yw wedi ei amrywio, o natur yr amrywiad.

(10) Caiff awdurdod lleol gyflwyno hysbysiadau olynol o dan baragraff (2).

(11) Rhaid i awdurdod lleol hysbysu PT a phennaeth ysgol C cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol pan fo hysbysiad wedi dirwyn i ben ac nad oes unrhyw hysbysiad pellach i'w gyflwyno.

(12) Mae'n dramgwydd i PT fethu, a hynny heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â hysbysiad sydd wedi ei ddyroddi o dan baragraff (2) neu wedi ei gyflwyno o dan baragraff (8).

(13) Mae unrhyw berson sy'n cyflawni tramgwydd o dan y rheoliad hwn yn atebol, o'i gollfarnu'r ddiannod, i un neu'r ddau o'r canlynol–

(a) dirwy heb fod yn fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol;

(b) dirwy bellach nad yw'n fwy na swm sy'n hafal i 50% o lefel 1 ar y raddfa safonol am bob diwrnod y mae'r diffyg yn parhau ar ôl y gollfarn.

(14) Yn y rheoliad hwn–

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**1**);

ystyr "pennaeth" ("*headteacher*") yw'r pennaeth neu, os yw'r pennaeth yn absennol, y person sy'n dirprwyo yn ei le;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person sydd o dan 18 mlwydd oed;

mae i "rhiant" yr ystyr a roddir i ("*parent*") gan adran 576 o Ddeddf Addysg 1996(**2**); ac

mae i "ysgol" yr ystyr a roddir i ("*school*") gan adran 4 o Ddeddf Addysg 1996(**3**).

(9) A local authority must as soon as reasonably practicable after varying or revoking a notice under paragraph (8) inform PT and the headteacher of C's school that the notice has been varied or revoked and, if varied, the nature of the variation.

(10) A local authority may serve consecutive notices under paragraph (2).

(11) A local authority must inform PT and the headteacher of C's school as soon as reasonably practicable where a notice has expired and no further notice is to be served.

(12) It is an offence for PT to fail without reasonable excuse to comply with a notice served under paragraph (2) or varied under paragraph (8).

(13) Any person who commits an offence under this regulation is liable on summary conviction to one or both of–

(a) a fine not exceeding level 2 on the standard scale;

(b) a further fine not exceeding an amount equal to 50% of level 1 on the standard scale for each day on which the default continues after conviction.

(14) In this regulation–

"child" ("*plentyn*") means a person under 18 years of age;

"headteacher" ("*pennaeth*") means the headteacher or, if the headteacher is absent, the person deputising for the headteacher;

"parent" ("*rhiant*") has the meaning given to it by section 576 of the Education Act 1996(**1**);

"school" ("*ysgol*") has the meaning given to it by section 4 of the Education Act 1996(**2**); and

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means any day which is not a Saturday, Sunday, Christmas Day, Good Friday or a day which is a bank holiday in Wales under the Banking and Financial Dealings Act 1971(**3**).

(**1**) 1971 p.80.

(**2**) 1996 p.56; diwygiwyd adran 576 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), Atodlen 30, paragraff 180(a).

(**3**) Diwygiwyd adran 4 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56) gan Ddeddf Addysg 1997 (p.44), adran 51, Atodlen 7, paragraff (10) ac Atodlen 8, paragraff 1 a Deddf Addysg 2002 (p.32), Atodlen 22(3), paragraff 1.

(**1**) 1996 c.56; section 576 was amended by the School Standards and Framework Act 1998 (c.31), Schedule 30, paragraph 180(a).

(**2**) Section 4 of the Education Act 1996 (c.56) was amended by the Education Act 1997 (c.44), section 51, Schedule 7, paragraph (10) and Schedule 8 paragraph 1 and the Education Act 2002 (c.32), Schedule 22 (3) paragraph 1.

(**3**) 1971 c.80.

Gofyniad i ddarparu manylion am blant sy'n mynychu ysgol

3.–(1) Caiff awdurdod lleol, drwy gyflwyno hysbysiad i bennaeth ysgol yn ardal yr awdurdod, ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth hwnnw roi iddo restr o'r enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn cyswllt ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol honno, neu unrhyw grŵp o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol honno y bydd yn ei bennu, pan fo'r amod ym mharagraff (2) wedi ei fodloni.

(2) Yr amod yw bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni–

(a) bod person (P) sydd, neu sydd wedi bod yn ddiweddar, ar fangre'r ysgol wedi ei heintio neu wedi ei halogi neu y gallai fod wedi ei heintio neu wedi ei halogi;

(b) bod yr heintiad neu'r halogiad yn un sy'n cyflwyno neu a allai gyflwyno niwed o bwys i iechyd dynol;

(c) bod risg y gallai P fod wedi heintio neu wedi halogi disgyblion yn yr ysgol;

(ch) ei bod yn angenrheidiol i'r awdurdod lleol gael y rhestr er mwyn cysylltu â'r disgyblion hynny gyda golwg ar ganfod a ydynt, neu a allent fod, wedi eu heintio neu wedi eu halogi; a

(d) bod ei gwneud yn ofynnol i gael y rhestr (a chysylltu â'r disgyblion hynny a allai fod wedi eu heintio neu wedi eu halogi) yn ymateb cymesur i'r risg sy'n cael ei chyflwyno gan P.

(3) Rhaid i'r hysbysiad–

(a) pennu terfyn amser ar gyfer bodloni'r gofyniad;

(b) pennu cyfeiriad y mae'r rhestr i'w hanfon iddo; ac

(c) darparu manylion cyswllt ar gyfer swyddog awdurdod lleol sy'n gallu trafod yr hysbysiad.

(4) Mae'n dramgwydd i bennaeth fethu, a hynny heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff (1).

(5) Mae unrhyw berson sy'n cyflawni tramgwydd o dan y rheoliad hwn yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol.

(6) Yn y rheoliad hwn, mae i "pennaeth" ac "ysgol" yr un ystyr â'r un a roddwyd iddynt yn rheoliad 2.

Diheintio neu ddadhalogi pethau ar gais y perchennog

4.–(1) Caiff awdurdod lleol ddiheintio neu ddadhalogi peth, neu beri iddo gael ei ddiheintio neu ei ddadhalogi(**1**) pan ofynnir iddo wneud hynny gan berchennog y peth.

Requirement to provide details of children attending school

3.–(1) A local authority may by serving notice on a headteacher of a school in its area require that headteacher to provide it with a list of the names, addresses and contact telephone numbers for all the pupils of that school, or such group of pupils attending that school as it may specify, where the condition in paragraph (2) is met.

(2) The condition is that the local authority is satisfied that–

(a) a person (P) who is or has recently been on the school's premises is or may be infected or contaminated;

(b) the infection or contamination is one which presents or could present significant harm to human health;

(c) there is a risk that P may have infected or contaminated pupils at the school;

(d) it is necessary for the local authority to have the list in order to contact those pupils with a view to ascertaining whether they are or may be infected or contaminated; and

(e) requiring the list (and contacting those pupils which may be infected or contaminated) is a proportionate response to the risk presented by P.

(3) The notice must–

(a) specify a time limit for meeting the requirement;

(b) specify an address where the list is to be sent; and

(c) provide contact details for an officer of the local authority who is able to discuss the notice.

(4) It is an offence for a headteacher to fail without reasonable excuse to comply with a notice served under paragraph (1).

(5) Any person who commits an offence under this regulation is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 1 on the standard scale.

(6) In this regulation, "headteacher" and "school" have the same meaning as they are given in regulation 2.

Disinfection or decontamination of things on request of the owner

4.–(1) A local authority may disinfect or decontaminate, or cause to be disinfected or decontaminated, a thing(**1**) where requested to do so by the owner of the thing.

(**1**) *Gweler* adran 45(T)(5) o Ddeddf 1984 i gael y diffiniad o "thing".

(**1**) *See* section 45(T)(5) of the 1984 Act for the definition of "thing".

(2) Caiff yr awdurdod lleol godi tâl ar y perchennog am ddiheintio neu ddadhalogi'r peth os rhoddir gwybod i'r perchennog am y tâl cyn i'r diheintio neu'r dadhalogi gael ei wneud a bod y perchennog yn cytuno i'w dalu.

(3) Rhaid i'r tâl a godir gan yr awdurdod lleol beidio â bod yn fwy na'r gost a dynnir gan yr awdurdod lleol wrth wneud y diheintio neu'r dadhalogi.

Diheintio neu ddadhalogi pethau ar gais y person y maent dan ei gadwad neu ei reolaeth

5.–(1) Caiff awdurdod lleol ddiheintio neu ddadhalogi peth, neu beri iddo gael ei ddiheintio neu ei ddadhalogi, pan ofynnir iddo wneud hynny gan berson (A) y mae'r peth dan ei gadwad neu ei reolaeth os yw'r awdurdod lleol yn rhesymol fodlon na chaiff gwerth ariannol y peth ei leihau o ganlyniad i ddiheintio neu ddadhalogi.

(2) Caiff yr awdurdod lleol godi tâl ar A am ddiheintio neu ddadhalogi'r peth os rhoddir gwybod i A am y tâl cyn i'r diheintio neu'r dadhalogi gael ei wneud a bod yntau'n cytuno i'w dalu.

(3) Rhaid i'r tâl a godir gan yr awdurdod lleol beidio â bod yn fwy na'r gost a dynnir gan yr awdurdod lleol wrth wneud y diheintio neu'r dadhalogi.

Diheintio neu ddadhalogi mangre ar gais y perchennog

6.–(1) Caiff awdurdod lleol ddiheintio neu ddadhalogi mangre, neu beri iddi gael ei diheintio neu ei dadhalogi(**1**) pan ofynnir iddo wneud hynny gan berchennog y fangre.

(2) Caiff yr awdurdod lleol godi tâl ar y perchennog am ddiheintio neu ddadhalogi'r fangre os rhoddir gwybod i'r perchennog am y tâl cyn i'r diheintio neu'r dadhalogi gael ei wneud a bod yntau'n cytuno i'w dalu.

(3) Rhaid i'r tâl a godir gan yr awdurdod lleol beidio â bod yn fwy na'r gost a dynnir gan yr awdurdod lleol wrth wneud y diheintio neu'r dadhalogi.

Diheintio neu ddadhalogi'r fangre ar gais y tenant

7.–(1) Caiff awdurdod lleol ddiheintio neu ddadhalogi mangre, neu beri iddi gael ei diheintio neu ei dadhalogi, pan ofynnir iddo wneud hynny gan denant y fangre os yw'r awdurdod lleol yn rhesymol fodlon na chaiff gwerth ariannol y fangre ei leihau o ganlyniad i'r diheintio neu'r dadhalogi.

(2) The local authority may charge the owner for the disinfection or decontamination of the thing if the owner is made aware of the charge prior to disinfection or decontamination being carried out and agrees to pay it.

(3) The local authority's charge must not exceed the cost incurred by the local authority in carrying out the disinfection or decontamination.

Disinfection or decontamination of things on request of person with custody or control

5.–(1) A local authority may disinfect or decontaminate, or cause to be disinfected or decontaminated, a thing where requested to do so by a person (A) with custody or control of the thing if the local authority is reasonably satisfied that the financial value of the thing will not be reduced as a consequence of the disinfection or decontamination.

(2) The local authority may charge A for the disinfection or decontamination of the thing if A is made aware of the charge prior to disinfection or decontamination being carried out and agrees to pay it.

(3) The local authority's charge must not exceed the cost incurred by the local authority in carrying out the disinfection or decontamination.

Disinfection or decontamination of premises on request of the owner

6.–(1) A local authority may disinfect or decontaminate, or cause to be disinfected or decontaminated, premises(**1**) where requested to do so by the owner of the premises.

(2) The local authority may charge the owner for the disinfection or decontamination of the premises if the owner is made aware of the charge prior to disinfection or decontamination being carried out and agrees to pay it.

(3) The local authority's charge must not exceed the cost incurred by the local authority in carrying out the disinfection or decontamination.

Disinfection or decontamination of premises on request of tenant

7.–(1) A local authority may disinfect or decontaminate, or cause to be disinfected or decontaminated, premises where requested to do so by the tenant of the premises if the local authority is reasonably satisfied that the financial value of the premises will not be reduced as a consequence of the disinfection or decontamination.

(**1**) *Gweler* adran 74 o Ddeddf 1984 i gael y diffiniad o "premises" fel y'i hamnewidiwyd gan Atodlen 11, paragraff 29(4) o Ddeddf 2008.

(**1**) *See* section 74 of the 1984 Act for the definition of "premises" as substituted by Schedule 11, paragraph 29(4) of the 2008 Act.

(2) Caiff yr awdurdod lleol godi tâl ar y tenant am ddiheintio neu ddadhalogi'r fangre os rhoddir gwybod i'r tenant am y tâl cyn i'r diheintio neu'r dadhalogi gael ei wneud a bod yntau'n cytuno i'w dalu.

(3) Rhaid i'r tâl a godir gan yr awdurdod lleol beidio â bod yn fwy na'r gost a dynnir gan yr awdurdod lleol wrth wneud y diheintio neu'r dadhalogi.

Ceisiadau am gydweithredu at ddibenion diogelu iechyd

8.–(1) Caiff awdurdod lleol drwy gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson neu grŵp o bersonau ofyn i'r person neu'r grŵp o bersonau wneud, neu ymatal rhag gwneud, unrhyw beth at ddibenion atal heintiad neu halogiad, sy'n cyflwyno neu a allai gyflwyno niwed o bwys i iechyd dynol, rhag brigo neu ymledu, neu at ddibenion diogelu rhag brigiad neu ymlediad heintiad neu halogiad o'r fath, ei reoli neu ddarparu ymateb iechyd cyhoeddus iddo.

(2) Rhaid i'r hysbysiad ddarparu manylion cyswllt ar gyfer swyddog awdurdod lleol sy'n gallu trafod yr hysbysiad.

(3) Caiff yr awdurdod lleol gynnig iawndal neu dreuliau mewn cysylltiad â'i gais.

Cyfyngu ar ddod i gysylltiad â chyrff meirw

9.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni–

(a) bod corff marw wedi ei heintio neu wedi ei halogi neu y gall fod wedi ei heintio neu wedi ei halogi;

(b) bod yr heintiad neu'r halogiad yn un sy'n cyflwyno neu a allai gyflwyno niwed o bwys i iechyd dynol;

(c) bod risg y gallai'r corff marw heintio neu halogi pobl;

(ch) ei bod yn angenrheidiol cyfyngu ar ddod i gysylltiad â'r corff marw er mwyn dileu neu leihau'r risg honno; a

(d) bod gwahardd unrhyw berson rhag dod i gysylltiad â'r corff marw yn ymateb cymesur i'r risg sy'n cael ei chyflwyno gan y corff marw hwnnw.

(2) Caiff yr awdurdod lleol gyflwyno i'r person (M), sydd â gofal neu reolaeth dros y fangre lle y mae'r corff marw, hysbysiad sy'n gwahardd unrhyw berson rhag dod i gysylltiad â'r corff marw.

(3) Ar ôl cael hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff (2), rhaid i M drefnu bod copi o'r hysbysiad yn cael ei arddangos yn amlwg wrth ymyl y corff marw yn ddi–oed.

(4) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys–

(2) The local authority may charge the tenant for the disinfection or decontamination of the premises if the tenant is made aware of the charge prior to disinfection or decontamination being carried out and agrees to pay it.

(3) The local authority's charge must not exceed the cost incurred by the local authority in carrying out the disinfection or decontamination.

Requests for co-operation for health protection purposes

8.–(1) A local authority may by serving notice on any person or group of persons request that the person or group of persons do, or refrain from doing, anything for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination which presents or could present significant harm to human health.

(2) The notice must provide contact details for an officer of the local authority who is able to discuss the notice.

(3) The local authority may offer compensation or expenses in connection with its request.

Restriction of contact with dead bodies

9.–(1) This regulation applies where a local authority is satisfied that–

(a) a dead body is or may be infected or contaminated;

(b) the infection or contamination is one which presents or could present significant harm to human health;

(c) there is a risk that the dead body might infect or contaminate people;

(d) it is necessary to restrict contact with the dead body in order to remove or reduce that risk; and

(e) prohibiting any person from having contact with the dead body is a proportionate response to the risk presented by that dead body.

(2) The local authority may serve on the person (M) having charge or control of the premises in which the dead body is located a notice prohibiting any person from having contact with the dead body.

(3) On receipt of a notice served under paragraph (2), M must arrange for a copy of the notice to be conspicuously displayed near the dead body without delay.

(4) The notice must include–

(a) datganiad i'r perwyl bod dod i gysylltiad â'r corff y mae'r hysbysiad wedi ei arddangos wrth ei ymyl wedi ei wahardd;

(b) datganiad i'r perwyl bod toriad ar y gwaharddiad yn dramgwydd troseddol;

(c) manylion cyswllt ar gyfer swyddog awdurdod lleol sy'n gallu trafod yr hysbysiad; ac

(ch) yr awdurdod cyfreithiol dros y gwaharddiad.

(5) Bydd tramgwydd wedi ei gyflawni os bydd unrhyw un o'r canlynol yn digwydd heb esgus rhesymol–

(a) bod M yn methu â threfnu i gopi o'r hysbysiad gael ei arddangos yn unol â pharagraff (3);

(b) bod unrhyw berson yn symud ymaith neu'n difwyno hysbysiad sy'n cael ei arddangos o dan baragraff (3); neu

(c) bod unrhyw berson yn methu â chydymffurfio â hysbysiad sy'n cael ei arddangos o dan baragraff (3).

(6) Ni fydd tramgwydd wedi ei gyflawni o dan baragraff (5)(c)–

(a) os oes gan y person gydsyniad yr awdurdod lleol i gael dod i gysylltiad â'r corff marw; neu

(b) os yw'r person yn arfer swyddogaethau crwner neu'n gweithredu o dan awdurdod crwner.

(7) Mae unrhyw berson sy'n cyflawni tramgwydd o dan y rheoliad hwn yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Cyfyngu ar gael mynd at gyrff meirw

10.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni–

(a) bod corff marw wedi ei heintio neu wedi ei halogi neu y gall fod wedi ei heintio neu wedi ei halogi;

(b) bod yr heintiad neu'r halogiad yn un sy'n cyflwyno neu a allai gyflwyno niwed o bwys i iechyd dynol;

(c) bod risg y gallai'r corff marw heintio neu halogi pobl;

(ch) ei bod yn angenrheidiol cyfyngu mynediad i'r ystafell lle y mae'r corff marw er mwyn dileu neu leihau'r risg honno; a

(d) bod gwahardd unrhyw berson rhag mynd i mewn i'r ystafell lle y mae'r corff marw yn ymateb cymesur i'r risg y mae'r corff marw hwnnw'n ei chyflwyno.

(2) Caiff yr awdurdod lleol gyflwyno i'r person (M) sydd â gofal neu reolaeth dros y fangre lle y mae'r corff marw hysbysiad sy'n gwahardd unrhyw berson rhag mynd i mewn i'r ystafell lle y mae'r corff marw.

(a) a statement to the effect that contact with the body near which the notice has been displayed is prohibited;

(b) a statement to the effect that breach of the prohibition is a criminal offence;

(c) contact details for an officer of the local authority who is able to discuss the notice; and

(d) the legal authority for the prohibition.

(5) An offence is committed if, without reasonable excuse–

(a) M fails to arrange for a copy of the notice to be displayed in accordance with paragraph (3);

(b) any person removes or defaces a notice displayed under paragraph (3); or

(c) any person fails to comply with a notice displayed under paragraph (3).

(6) An offence is not committed under paragraph (5)(c) if–

(a) the person has the local authority's consent to have contact with the dead body; or

(b) the person is exercising the functions of a coroner or is acting under the authority of a coroner.

(7) Any person who commits an offence under this regulation is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Restriction of access to dead bodies

10.–(1) This regulation applies where a local authority is satisfied that–

(a) a dead body is or may be infected or contaminated;

(b) the infection or contamination is one which presents or could present significant harm to human health;

(c) there is a risk that the dead body might infect or contaminate people;

(d) it is necessary to restrict entry to the room in which the dead body is located in order to remove or reduce that risk; and

(e) prohibiting any person from entering the room in which the dead body is located is a proportionate response to the risk presented by that dead body.

(2) The local authority may serve on the person (M) having charge or control of the premises in which the dead body is located a notice prohibiting any person from entering the room in which the dead body is located.

(3) Ar ôl cael hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff (2), rhaid i M drefnu bod copi o'r hysbysiad yn cael ei arddangos ym mhob un o'r mynedfeydd i'r ystafell yn ddi-oed.

(4) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys–

(a) datganiad i'r perwyl bod mynd i mewn i'r ystafell lle y mae'r corff marw wedi ei wahardd;

(b) datganiad i'r perwyl bod toriad ar y gwaharddiad yn dramgwydd troseddol;

(c) manylion cyswllt ar gyfer swyddog awdurdod lleol sy'n gallu trafod yr hysbysiad; ac

(d) yr awdurdod cyfreithiol dros y gwaharddiad.

(5) Bydd tramgwydd wedi ei gyflawni os bydd unrhyw un o'r canlynol yn digwydd heb esgus rhesymol–

(a) bod M yn methu â threfnu bod copi o'r hysbysiad yn cael ei arddangos ym mhob un o'r mynedfeydd i'r ystafell yn unol â pharagraff (3);

(b) bod unrhyw berson yn symud ymaith neu'n difwyno hysbysiad sy'n cael ei arddangos o dan baragraff (3); neu

(c) bod unrhyw berson yn methu â chydymffurfio â hysbysiad sy'n cael ei arddangos o dan baragraff (3).

(6) Ni fydd tramgwydd wedi ei gyflawni o dan baragraff (5)(c)–

(a) os oes gan y person gydsyniad yr awdurdod lleol i fynd i mewn i'r ystafell lle y mae'r corff marw; neu

(b) os yw'r person yn arfer swyddogaethau crwner neu'n gweithredu o dan awdurdod crwner.

(7) Mae unrhyw berson sy'n cyflawni tramgwydd o dan y rheoliad hwn yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Symud cyrff meirw i fan arall

11.–(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni–

(a) bod corff marw wedi ei heintio neu wedi ei halogi neu y gall fod wedi ei heintio neu wedi ei halogi;

(b) bod yr heintiad neu'r halogiad yn un sy'n cyflwyno neu a allai gyflwyno niwed o bwys i iechyd dynol;

(c) bod risg y gallai'r corff marw heintio neu halogi pobl;

(ch) ei bod yn angenrheidiol symud y corff i fan arall er mwyn dileu neu leihau'r risg honno;

(d) bod symud y corff i fan arall yn ymateb cymesur i'r risg i bobl y mae'r corff marw yn ei chyflwyno yn ei leoliad presennol.

(3) On receipt of a notice served under paragraph (2), M must arrange for a copy of the notice to be conspicuously displayed at each of the entry points to the room without delay.

(4) The notice must include–

(a) a statement to the effect that entering the room in which the dead body is located is prohibited;

(b) a statement to the effect that breach of the prohibition is a criminal offence;

(c) contact details for an officer of the local authority who is able to discuss the notice; and

(d) the legal authority for the prohibition.

(5) An offence is committed if, without reasonable excuse–

(a) M fails to arrange for a copy of the notice to be displayed at each of the entry points to the room in accordance with paragraph (3);

(b) any person removes or defaces a notice displayed under paragraph (3); or

(c) any person fails to comply with a notice displayed under paragraph (3).

(6) An offence is not committed under paragraph (5)(c) if–

(a) the person has the local authority's consent to enter the room in which the dead body is located; or

(b) the person is exercising the functions of a coroner or is acting under the authority of a coroner.

(7) Any person who commits an offence under this regulation is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Relocation of dead bodies

11.–(1) This regulation applies where a local authority is satisfied that–

(a) a dead body is or may be infected or contaminated;

(b) the infection or contamination is one which presents or could present significant harm to human health;

(c) there is a risk that the dead body might infect or contaminate people;

(d) it is necessary to relocate the body in order to remove or reduce that risk;

(e) relocating the body is a proportionate response to the risk to people presented by the dead body in its current location.

(2) Caiff yr awdurdod lleol symud y corff marw, neu beri iddo gael ei symud, i fan lle y mae'n credu y câi'r risg y byddai'r corff marw yn heintio neu'n halogi pobl ei leihau neu ei ddileu yn ddarostyngedig i baragraff (3).

(3) Ni chaiff yr awdurdod lleol symud y corff marw, na pheri iddo gael ei symud, i fan arall–

(a) os oes gan grwner awdurdodaeth dros y corff marw; neu

(b) os yw wedi methu â chymryd camau rhesymol i hysbysu'r person sydd â gofal neu reolaeth dros y fangre lle y mae'r corff marw o'i fwriad i gymryd camau o dan baragraff (2).

(4) Rhaid i unrhyw berson sydd â gofal neu reolaeth dros y fangre lle y mae corff marw gydweithredu ag awdurdod lleol sy'n bwriadu cymryd camau o dan baragraff (2).

(5) Mae'n dramgwydd i unrhyw berson fethu heb esgus rhesymol â chydymffurfio â pharagraff (4).

(6) Mae unrhyw berson sy'n cyflawni tramgwydd o dan y rheoliad hwn yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(2) The local authority may relocate, or cause to be relocated, the dead body to a place where it considers that the risk of the dead body infecting or contaminating people is reduced or removed subject to paragraph (3).

(3) The local authority may not relocate, or cause to be relocated, the dead body if–

(a) a coroner has jurisdiction over the dead body; or

(b) it has failed to take reasonable steps to inform the person with charge or control of the premises in which the dead body is located of its intention to take action under paragraph (2).

(4) Any person having charge or control of premises in which a dead body is located must co-operate with a local authority that intends to take action under paragraph (2).

(5) It is an offence for any person to fail without reasonable excuse to comply with paragraph (4).

(6) Any person who commits an offence under this regulation is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Mehefin 2010

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

8 June 2010

©Ⓟ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1545 (Cy.143)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 1545 (W.143)

PUBLIC HEALTH, WALES

The Health Protection (Local Authority Powers) (Wales) Regulations 2010

£5.75

W707/06/10 ON